

Adroddiad Arolygu Rheoliadau
Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad
Meddygol) (Lle Rhoddwyd Rhybudd)
Adran Meddygaeth Niwclear, Ysbyty
Treforys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae
Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 11 a 12 Mehefin 2024

Dyddiad cyhoeddi: 01 Hydref 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystywyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	21
4.	Y camau nesaf.....	24
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	25
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	26
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	28

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) o'r Adran Meddygaeth Niwclear yn Ysbyty Treforys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 11 a 12 Mehefin 2024. Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ystyried y ffordd roedd yr adran yn cydymffurfio â'r Rheoliadau ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Uwch-swyddog Clinigol ym maes Meddygaeth Niwclear o Grŵp Cysylltiadau Meddygol Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA), a gyflawnodd swyddogaeth gynghori. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o uwch-arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 17 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 14 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol am eu profiadau o fynychu'r Adran Meddygaeth Niwclear. Gwelsom fod y staff yn trin cleifion â chwarteisi, parch a charedigrwydd. Roedd yr adborth gan gleifion hefyd yn cefnogi hyn. Gwelsom hefyd fod y staff yn rhoi gofal mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r cleifion.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth ac wedi cymryd cymaint o ran ag yr hoffent yn eu gofal.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rhoddodd y cleifion adborth a sylwadau cadarnhaol am agwedd a dull gweithredu'r staff sy'n gofalu amdanynt
- Hyrwyddo'r Gymraeg drwy gyfrwng arwyddion, gwybodaeth a bathodynau staff a oedd yn golygu bod y 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar gael
- Dywedodd y cleifion wrthym nad oedd yn rhaid iddynt aros yn hir am eu harchwiliad neu sgan
- Roedd yr amgylchedd yn olau ac yn agored.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd lefelau cydymffurfiaeth da â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 ym mhob rhan o'r Adran Meddygaeth Niwclear.

Gwelsom hefyd fod trefniadau effeithiol ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd gan y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwella'r wybodaeth sydd ar gael yn y daflen wybodaeth i gleifion er mwyn sicrhau eglurder a dealltwriaeth ynghylch y risg sy'n gysylltiedig ag ymbelydredd

- Gwneud trefniadau i ddangos yn glir ganlyniadau archwiliadau clinigol, y camau i'w cymryd, yr unigolyn cyfrifol a'r dyddiad cwblhau
- Parhau ag ymdrechion i sicrhau bod gweithdrefnau a dogfennau sicrhau ansawdd yn cael eu safoni a bod llai o ddyblygu
- Adolygu prosesau a hyfforddiant staff er mwyn sicrhau bod prosesau a dogfennau yn gyson.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Darparodd uwch-aelodau o'r staff yn yr Adran Meddygaeth Niwclear amrywiaeth eang o enghreifftiau o archwiliadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol), yn ogystal ag archwiliadau clinigol
- Roedd cymorth ar gael gan arbenigwyr ffiseg feddygol ar gael ac roedd ganddynt wybodaeth gynhwysfawr.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Disgrifiwyd a dangoswyd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir yn ystod yr arolygiad.

Roedd yr adborth gan staff mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth y sefydliadau roeddent yn gweithio iddynt yn gadarnhaol ar y cyfan.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu a chyfuno gweithdrefnau'r cyflogwr, dogfennau a'r wybodaeth i gleifion
- Adolygu a gwella effeithlonrwydd wrth ddyrannu tasgau gweinyddol i staff clinigol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cyflwyno system rheoli dogfennau cwmwl yn ddiweddar.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Cyhoeddodd AGIC holiaduron ar-lein ac ar bapur er mwyn caffael safbwyntiau'r cleifion ar wasanaethau a gynhaliwyd yn yr adran er mwyn cyd-fynd ag arolygiad AGIC ym mis Mehefin 2024. Cafwyd cyfanswm o 17 o ymatebion gan gleifion yn y lleoliad hwn. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ym mhob maes, gyda phob claf a atebodd yn dweud bod y gwasanaeth yn 'dda iawn'. Mae rhai o'r sylwadau a gafwyd am y gwasanaeth wedi'u nodi isod:

“Pe byddai gradd ardderchog ar gael ar gyfer y gwasanaeth yn gyffredinol, byddwn i'n rhoi'r radd honno. Roedd y staff yn wych. Dydw i ddim yn hoffi sganiau na nodwyddau ac fe wnaethon nhw gymryd amser i wneud yn siŵr fy mod i'n iawn. Gwneud i mi deimlo'n gyfforddus.”

“Staff hynod o gyfeillgar, cymwynasgar ac ystyriol.”

Hybu iechyd

Roedd posterï dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn cael eu harddangos a oedd yn rhoi gwybodaeth i'r cleifion am gael triniaeth pelydr-X a meddygaeth niwclear ac yn eu cynghori hefyd i hysbysu staff os oeddent o bosibl yn feichiog neu os oeddent yn bwydo ar y fron. Roedd gwybodaeth berthnasol ar gael i'r cleifion am fanteision a risgiau cysylltiedig y cysylltiad bwriadol.

Gwelsom fod deunydd hybu iechyd yn cael ei arddangos yn yr ardaloedd aros yn yr adran meddygaeth niwclear. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am fanteision mabwysiadu ffordd o fyw iach.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd trefniadau addas ar waith i hyrwyddo preifatrwydd y cleifion a nodwyd gennym fod y staff yn ymdrechu i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion, er enghraifft, cloi drysau. Gwelsom fod yr holl staff yn trin y cleifion â chwarteisi, parch a charedigrwydd.

Roedd pob un a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno:

- Bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch
- Bod mesurau ar waith i amddiffyn eu preifatrwydd
- Eu bod wedi gallu siarad â'r staff am eu triniaeth heb i gleifion eraill glywed

- Bod y staff wedi gwranddo arnynt.

Pan ofynnwyd iddynt a oedd preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal, roedd yr holl staff a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur yn cytuno.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am eu harchwiliad neu sgan. Yn ogystal, dywedodd pob un o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig am bwy i gysylltu â nhw i gael cyngor ar ôl eu harchwiliad neu sgan.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu harchwiliad neu sgan. Yn yr un modd, dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym fod y staff wedi egluro'r hyn roeddent yn ei wneud, a bod y staff wedi gwranddo arnynt ac ateb eu cwestiynau.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd yr iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol yn yr adran. Gwelsom fod posteri dwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg a oedd yn rhoi gwybodaeth i'r cleifion wedi'u harddangos yn glir yn yr adran. Gwelsom arwyddion clir i gyfeirio ymwelwyr i'r adran ac roedd bwrdd lluniau ar gael fel y gallai'r cleifion weld y staff a all fod yn gofalu amdanynt. Gwelsom lythyrau apwyntiadau a dogfennau a oedd yn nodi'r camau nesaf ar gyfer cleifion, ac roedd y rhain ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw rai o'r trefniadau sydd ar waith i helpu pobl ag anawsterau clywed a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf. Roedd dolen sain ar gael yn y brif dderbynfa. Roedd pob un o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau cyfieithu.

Hawliau pobl

Gwelsom fod y staff sy'n gweithio yn yr Adran Meddygaeth Niwclear yn gweithio mewn ffordd a oedd yn diogelu ac yn hyrwyddo hawliau'r cleifion. Disgrifiwyd y trefniadau a oedd ar waith i wneud y gwasanaeth yn hygyrch i gleifion, fel mynediad i gadeiriau olwyn. Roedd yr adran yn hygyrch ac yn cynnwys drysau llydan, coridorau clir ac ystafelloedd trin mawr â mynediad gwastad.

Roedd gan y bwrdd iechyd sawl grŵp cynhwysiant. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y byddai pawb yn cael eu trin yn deg, heb wahaniaethu, yn unol â gwerthoedd y bwrdd iechyd.

Roedd y staff yn gweithio mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn orfodol ar gyfer pob aelod o'r staff. Cadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cwblhau'r cwrs hwn ar-lein. Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ymwybyddiaeth dda o'u cyfrifoldebau i ddiogelu a hyrwyddo hawliau'r cleifion pan fyddent yn mynychu'r adran. Gallent gadarnhau'r trefniadau sydd ar waith i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y sefydliad.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff (86%) a atebodd holiadur AGIC bod ganddynt fynediad teg a chyfartal i gyfleoedd yn y gweithle a bod y gweithle yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

Dyletswyddau'r cyflogwr: sefydlu gweithdrefnau, protocolau a rhaglenni sicrhau ansawdd cyffredinol

Gweithdrefnau a phrotocolau

Roedd gan y cyflogwr weithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig sefydledig ar gyfer yr adran meddygaeth niwclear fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Roedd Polisi Diogelu Rhag Ymbelydredd Ïoneiddio ar gael hefyd. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod ble i gael gafael ar weithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr sy'n berthnasol i'w hymarfer. Roeddent o'r farn bod y gweithdrefnau'n glir ac yn hawdd eu deall a gwnaethant ddweud y byddent yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i weithdrefnau ar lafar neu drwy e-bost.

Roedd y gweithdrefnau a welsom yn dangos bod rhai mesurau rheoli ansawdd a rheoli dogfennau ar waith. Fodd bynnag, drwy gydol yr arolygiad, nodwyd rhai achosion o anghysondeb a dyblygu mewn perthynas â rhai o weithdrefnau'r cyflogwr. Nid oedd systemau adolygu a mynegeo cyson ar waith yn achos rhai o'r gweithdrefnau a welsom mewn perthynas â meddygaeth niwclear. Yn ystod yr arolygiad, cadarnhawyd bod yr holl weithdrefnau a phrotocolau sy'n gysylltiedig â meddygaeth niwclear wrthi'n cael eu lanlwytho i borth ar-lein er mwyn sicrhau y gellir rhannu a sicrhau ansawdd pob dogfen yn effeithiol yn unol â gofynion Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017.

Canllawiau atgyfeirio

Edrychodd AGIC ar y ddogfennaeth a'r gweithdrefnau mewn perthynas ag atgyfeiriadau a'r canllawiau atgyfeirio. Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y canllawiau hyn. Gwnaethom gadarnhau ag aelodau o'r staff yn yr adran bod arferion atgyfeirwyr yn adlewyrchu gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr yn gywir. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd cyn yr arolygiad yn nodi bod y broses atgyfeirio yn defnyddio canllawiau atgyfeirio at ddelweddu'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer atgyfeiriadau meddygaeth niwclear. Nid oedd gweithdrefn berthnasol y cyflogwr (EP3 - Gweithdrefn atgyfeirio a meini prawf atgyfeirio) yn cyfeirio at y canllawiau hyn.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau, os caiff canllawiau atgyfeirio'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer meddygaeth niwclear eu dilyn, fod gweithdrefn y cyflogwr yn cyfeirio atynt a bod y canllawiau hyn ar gael i atgyfeirwyr.

Wrth edrych ar sampl o ffurflenni atgyfeirio a'r system gwybodaeth radioleg gyfatebol (RadIS), nodwyd rhai anghysondebau. Nid oedd manylion a gwybodaeth yr atgyfeiriwr ar y ffurflen atgyfeirio bob amser yn ymddangos yn gywir ar RadIS. Gwelsom hefyd nad yw'r awdurdodiad ar gyfer y cysylltiad yn cael ei nodi yn y lle cywir ar y ffurflen bob amser. Cafwyd cadarnhad bod ffurflenni atgyfeirio'n cael eu harchwilio i fonitro cydymffurfiaeth o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Fodd bynnag, o ystyried yr anghysondebau a welwyd wrth edrych ar sampl o ffurflenni atgyfeirio, roedd angen adolygu'r broses archwilio hon.

Rhaid i'r cyflogwr

- **Adolygu ac atgyfnerthu'r broses archwilio ffurflenni atgyfeirio yng ngweithdrefn y cyflogwr 3 - Gweithdrefn atgyfeirio a meini prawf atgyfeirio**
- **Adolygu'r broses ar gyfer cofnodi atgyfeiriwr ar y system electronig er mwyn sicrhau bod yr atgyfeiriwr cywir yn cael ei nodi**
- **Adolygu'r broses ar gyfer cwblhau'r wybodaeth arall ar ffurflenni atgyfeirio, fel awdurdodi, mewn ffordd gyson.**

Lefelau cyfeirio diagnostig

Gwelodd AGIC y weithdrefn ysgrifenedig addas sydd ar waith gan y cyflogwr i ddefnyddio ac adolygu lefelau cyfeirio diagnostig.

Gwnaethom gadarnhau bod lefelau cyfeirio diagnostig lleol wedi cael eu sefydlu ar gyfer rhai profion. Roedd y rhain yn cyfateb i'r lefelau cyfeirio diagnostig cenedlaethol neu'n is na nhw ar gyfer rhoi meddygaeth niwclear a'r system tomograffeg gyfrifiadurol hybrid.

Yn yr adran, gwelsom fod lefelau cyfeirio diagnostig cenedlaethol a lleol yn cael eu harddangos er gwybodaeth ar gyfer y system tomograffeg gyfrifiadurol hybrid. Arfer gorau fyddai arddangos un lefel gyfeirio ddiagnostig ar gyfer pob triniaeth yn hytrach na'r lefel leol a chenedlaethol er mwyn lleihau'r risg o gamgymeriad posibl. Nid oedd defnydd pob set o lefelau cyfeirio diagnostig yn glir yng ngweithdrefn y cyflogwr.

Dylai gweithdrefn y cyflogwr gael ei diweddarau i egluro diben y ddwy set o lefelau cyfeirio diagnostig sy'n cael eu harddangos a sut y dylid eu defnyddio.

Ymchwil feddygol

Er bod gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig mewn perthynas ag ymchwil, cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff yn yr adran nad yw'r Adran Meddygaeth Niwclear yn cymryd rhan mewn gwaith ymchwil sy'n cynnwys cysylltiadau meddygol.

Hawliau

Gwelodd AGIC y weithdrefn ysgrifenedig sydd ar waith gan y cyflogwr i nodi unigolion sydd â hawl i fod yn atgyfeiriwr, yn ymarferydd neu'n weithredwr.

Cadarnhaodd dogfennau mai'r Prif Weithredwr (y cyflogwr) oedd y cyflogwr dynodedig â chyfrifoldeb cyffredinol dros gydymffurfio â dyletswyddau fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Roedd wedi dirprwyo'r dasg hawliau i unigolion priodol a chadarnhawyd y manylion yn ystod y broses arolygu.

Gwelsom gofnodion hyfforddiant a hawliau pum aelod o'r staff o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Cadarnhaodd y cofnodion y caiff hawliau eu cymeradwyo bob blwyddyn yn ystod arfarniad perfformiad ac adolygiad datblygiad y staff unigol. Nodwyd rhywfaint o afreoleidd-dra â'r broses asesu cymhwysedd lle roedd dau aelod o'r staff wedi cymeradwyo ei gilydd, sy'n amhriodol.

Mae angen i'r cyflogwr sicrhau bod cofnodion hyfforddiant y staff yn cael eu diweddarau er mwyn sicrhau bod cymwyseddau'r staff wedi cael eu hasesu gan unigolyn priodol y mae'r cyflogwr wedi dirprwyo'r dasg honno iddo.

Gwnaethom gadarnhau bod gan y cyflogwr a'r ymarferwyr drwyddedau dilys er mwyn cynnal cysylltiadau bwriadol sy'n cynnwys defnyddio sylweddau ymbelydrol. Gwelsom fod prosesau ar waith i sicrhau bod y trwyddedau yn cael eu gwirio a'u diweddarau'n rheolaidd.

Adnabod cleifion

Nodwyd bod gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig i adnabod unigolion a fyddai'n dod i gysylltiad ag ymbelydredd Ïoneiddio. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r weithdrefn i adnabod unigolion yn gywir. Yn ogystal, roeddent yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn er mwyn adnabod unigolion yn gywir nad ydynt efallai yn gallu adnabod eu hunain.

Unigolion o oedran beichiogi (holi am feichiogrwydd)

Roedd posteri wedi'u harddangos yn glir yn yr ardaloedd aros yn rhoi gwybod i'r cleifion sy'n feichiog neu a allai fod yn feichiog neu sy'n bwydo ar y fron, y dylent

hysbysu'r staff cyn cael archwiliad neu sgan. Roedd y wybodaeth hon yn cael ei harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg a defnyddiwyd pictogramau addas hefyd. Roedd y llythrau apwyntiadau'n gofyn i'r cleifion gysylltu â'r adran os oedd unrhyw siawns y gallent fod yn feichiog neu os oeddent yn bwydo ar y fron. Cadarnhaodd staff y byddai plant a phobl ifanc sy'n cael archwiliad neu sgan yn mynd yn syth o'r ward i'r ystafell chwistrellu yn yr adran, yn hytrach na defnyddio'r ystafell aros. Ar ddiwrnod cyntaf ein hymweliad, nid oedd poster yn cael ei arddangos yn yr ardal hon mewn perthynas â beichiogrwydd. Cafodd hyn ei unioni yn ystod yr arolygiad a chafodd poster ei arddangos yn yr ystafell chwistrellu. Byddai hyn yn sicrhau bod pob person ifanc sy'n mynd i'r ystafell yn syth o'r ward yn gallu gweld y poster cyn cael y cysylltiad.

Gwelsom rai anghysondebau o ran holi am feichiogrwydd yn y ffurflenni a ddefnyddiwyd (atgyfeirio a hanes y claf), y polisi a gweithdrefn berthnasol y cyflogwr. Gwelwyd ffurflenni a chadarnhaodd y staff y gallai cleifion ateb naill ai ie / na pan ofynnwyd iddynt am gadarnhad ynghylch beichiogrwydd. Nid oedd proses glir i'w dilyn pe bai claf yn ateb efallai yn ystod y broses o brofi beichiogrwydd.

Rhaid i'r cyflogwr adolygu prosesau a hyfforddiant staff mewn perthynas â holi am feichiogrwydd er mwyn sicrhau bod y broses gyfredol, gweithdrefn y cyflogwr a phob ffurflen yn gyson ac yn nodi'n glir y weithdrefn a ddefnyddir.

Manteision a Risgiau

Esboniodd y staff y gwnaethom siarad â nhw'r broses ar gyfer rhoi gwybodaeth ddigonol i'r unigolyn a fyddai'n dod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio (neu ei gynrychiolydd) am fanteision cael y cysylltiad a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r dos o ymbelydredd. Byddai'r wybodaeth hon yn cael ei thrafod cyn i'r dos gael ei roi a byddai taflen yn cael ei rhoi i'r claf ar ôl hynny.

Gwelsom weithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr a'r weithdrefn meddygaeth niwclear ar gyfer darparu cyfarwyddiadau a gwybodaeth ysgrifenedig i bob claf neu gynrychiolydd y claf. Roedd y wybodaeth ysgrifenedig i gleifion a welsom yn aneglur ynghylch risgiau ymbelydredd y driniaeth ac yn rhoi dau werth gwahanol.

Rhaid i'r cyflogwr adolygu a diweddarau'r wybodaeth a roddir i gleifion am risg ymbelydredd mewn perthynas â dosau cyfatebol o gysylltiad ymbelydredd.

Gwerthusiadau clinigol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer cynnal a chofnodi gwerthusiad clinigol o bob cysylltiad meddygol a gyflawnir yn yr adran. Cafodd y weithdrefn hon ei hadolygu yn erbyn sampl o gofnodion ar y safle a chadarnhawyd bod gwerthusiadau clinigol priodol wedi cael eu cynnal mewn modd amserol.

Cysylltiadau â delweddu anfeddygol

Er bod gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith ar gyfer atgyfeirio a rheoli cysylltiadau anfeddygol, clywsom mai anaml iawn roedd cysylltiadau o'r fath yn digwydd ym maes meddygaeth niwclear.

Dyletswyddau'r cyflogwr - archwiliad clinigol

Cafodd rhaglen gadarn o archwiliadau clinigol ei disgrifio a gwelwyd enghreifftiau da o archwiliadau clinigol a gynhaliwyd gan yr Adran Meddygaeth Niwclear. Roedd yn gadarnhaol nodi bod yr ymarferydd arweiniol yn chwarae rhan flaenllaw yn y broses hon. Roedd y staff clinigol yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn archwiliadau a rhannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt drwy ddiweddariadau a chyfarfodydd staff. Fodd bynnag, nid oedd yn ymddangos bod yr enghreifftiau o adroddiadau a ddarparwyd yn cynnwys tystiolaeth o'r ffordd roedd ymarfer wedi newid, y camau gweithredu gofynnol, pwy oedd yn gyfrifol am y camau gweithredu na'r broses ar gyfer gwirio bod camau gweithredu'n cael eu cwblhau. Roedd gweithdrefn berthnasol y cyflogwr yn nodi bod angen cynnwys yr holl elfennau hyn mewn adroddiad archwilio.

Mae angen i'r cyflogwr ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddangos yn glir ganlyniad archwiliadau clinigol, y camau i'w cymryd, yr unigolyn sy'n gyfrifol am y camau gweithredu a'r dyddiad cwblhau ar gyfer pob archwiliad a gwblhawyd.

Archwiliadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

Roedd rhaglen gadarn o archwiliadau ar waith o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) a gwelwyd enghreifftiau da o archwiliadau a gwblhawyd. Roedd enghreifftiau'n cynnwys archwiliadau o ffurflenni cais o dan y Rheoliadau ac adolygiadau o gydymffurfiaeth â lefelau cyfeirio diagnostig.

Dyletswyddau'r cyflogwr - cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith ar gyfer adrodd ar gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sy'n ymwneud ag ymbelydredd, eu cofnodi, ymchwilio iddynt a'u dadansoddi ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear. **Nodwyd y byddai'n fuddiol adolygu'r weithdrefn hon i gynnwys y canllawiau cyfredol ar y meini prawf adrodd ar gyfer cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol.**

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a atebodd fod eu sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am wallau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau (11/14) a'u bod yn teimlo bod y staff sy'n gysylltiedig ag unrhyw achosion o'r fath wedi cael eu trin yn deg (10/13). Dywedodd y rhan fwyaf ohonynt y byddent yn teimlo'n ddiogel wrth godi pryderon am ymarfer clinigol anniogel (9/12) ond dywedodd llai eu bod yn hyderus yr ymdrinnid â'u pryderon (4/8).

Nodir rhai sylwadau a gawsom am adrodd ar ddigwyddiadau a phryderon isod:

“Mae amgylchedd o roi pryderon a godwyd o'r neilltu a bod yn amddiffynol am waith yn hytrach nag ystyried hyn fel cyfle i ddysgu a gwella. Mae pryderon a godwyd am ddiogelwch arferion, cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) a'r gyfraith a chymhwysedd staff oll wedi cael ymateb dirmygus. Nid oes fawr ddim camau neu fesurau, os o gwbl, wedi cael eu cymryd i newid...”

“...Ni chaiff staff eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau a fu bron â digwydd. Mae diwylliant o beidio â chyfaddef camgymeriadau neu ansicrwydd, sy'n golygu bod staff yn gwneud gwaith sydd y tu allan i'w maes ymarfer ac nad ydynt yn gofyn am gyngor. Caiff meddygaeth niwclear ei thrin yn isradd ym maes radioleg ac nid yw'r gwasanaeth yn manteisio i'r eithaf ar ddefnyddioldeb y dechneg.”

Dylai'r cyflogwr adolygu'r adborth a ddarparwyd gan y staff mewn perthynas â rhoi gwybod am ddigwyddiadau a mynd i'r afael â phryderon.

Dyletswyddau'r ymarferydd, y gweithredwr a'r atgyfeiriwr

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau fel deiliaid dyletswydd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn dda.

Dangosodd y sampl o ffurflenni atgyfeirio a archwiliwyd gennym fod atgyfeiriadau at yr Adran Meddygaeth Niwclear wedi'u gwneud yn unol â'r canllawiau atgyfeirio sefydledig. Gwelsom fod y ffurflenni'n cynnwys digon o fanylion clinigol a nodwyd rhai anghysondebau yn y modd y cafodd y ffurflenni eu cwblhau, fel y nodwyd eisoes.

Darparwyd enghreifftiau o archwiliadau a oedd yn dangos bod trefniadau addas ar waith i fonitro cydymffurfiaeth staff â gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr a ddefnyddiwyd yn yr Adran Meddygaeth Niwclear.

Cyfiawnhad dros gysylltiadau unigol

Dywedwyd wrthym fod cysylltiadau a gyflawnwyd yn yr Adran Meddygaeth Niwclear wedi'u cyfiawnhau a'u hawdurdodi gan ymarferwyr sy'n gweithio yn yr Adran Meddygaeth Niwclear sydd â'r hawl i wneud hynny.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi cysylltiadau yn yr Adran Meddygaeth Niwclear. Roedd manylion ynghylch cyfiawnhau cysylltiadau i ofalwyr a chysurwyr wedi'u cynnwys mewn gweithdrefn ar wahân.

Roedd y dogfennau atgyfeirio a welsom yn dilyn gweithdrefn y cyflogwr.

Optimeiddio

Disgrifiwyd trefniadau addas o ran sut mae ymarferwyr a gweithredwyr yn sicrhau bod y cysylltiadau a gynhelir yn yr Adran Meddygaeth Niwclear mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys sut mae ymarferwyr a gweithredwyr yn rhoi sylw penodol mewn perthynas ag unigolion lle na ellid diystyru beichiogrwydd ac unigolion sy'n bwydo ar y fron.

Pediatreg

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff drefniadau addas ar gyfer optimeiddio'r cysylltiadau i blant yn unol â chanllawiau ARSAC. Roedd y rhain yn cynnwys lleihau lefelau cyfeirio diagnostig, lleihau gweithgareddau a ddefnyddir gan oedolion yn unol â phwysau plentyn a gweithredwyr yn addasu protocolau clinigol yn unol â hynny.

Gofalwyr neu gysurwyr

Roedd gweithdrefn ysgrifenedig addas gan y cyflogwr er mwyn pennu cyfyngiadau dosau a rhoi canllawiau ar gysylltiadau a fyddai'n effeithio ar ofalwyr neu gysurwyr yn yr Adran Meddygaeth Niwclear. Roedd hyn yn nodi'r cyfyngiadau dos ar gyfer pob archwiliad meddygaeth niwclear yn glir.

Cyngor arbenigol

Gwnaethom gadarnhau fod y cyflogwr wedi penodi arbenigwyr ffiseg feddygol ac wedi rhoi'r hawl iddynt roi cyngor ar faterion diogelu rhag ymbelydredd a chydymffurfiaeth â Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y gallent gael cyngor arbenigol ac nad oeddent erioed wedi cael problem cysylltu â'r arbenigwr ffiseg feddygol. Roedd yn gadarnhaol nodi bod yr arbenigwyr ffiseg feddygol yn cael eu cynnwys a'u bod yn amlwg yn ymgysylltu â'r adran er nad oeddent ar y safle bob dydd. Roedd cyfathrebu da rhwng yr arbenigwyr ffiseg feddygol a'r staff meddygaeth niwclear. Codwyd rhai pryderon am gynnwys arbenigwyr ffiseg feddygol yn hwyr yn y broses o gaffael cyfarpar yn y gorffennol. Cadarnhaodd uwch-aelodau o staff yr adran eu bod yn bwriadu cynnwys arbenigwyr ffiseg feddygol yn fwy o'r dechrau o hyn ymlaen.

Dylai'r cyflogwr sicrhau bod arbenigwyr ffiseg feddygol ym maes meddygaeth niwclear yn ymgysylltu ac yn ymwneud yn weithredol â'r gwasanaeth er mwyn sicrhau gwelliannau a datblygiadau effeithiol. Dylai hyn gynnwys, ymhlith pethau eraill, y broses o gaffael yr holl gyfarpar meddygaeth niwclear, gan gynnwys y cyfarpar a ddefnyddir mewn llawdriniaethau.

Roedd y cydweithio hwn yn ymestyn i archwiliadau'r arbenigwyr ffiseg feddygol o'r gwasanaeth a oedd yn nodedig er eu bod yn dilyn cylch dwy flynedd. Ni fynegodd yr arbenigwyr ffiseg feddygol unrhyw bryderon am weithrediad yr Adran Meddygaeth Niwclear.

Cyfarpar: dyletswyddau cyffredinol y cyflogwr

Gwelsom fod cyfarpar newydd wedi cael ei gomisiynu'n ddiweddar yn yr adran ond roedd rhywfaint o ailadrodd a dyblygu. Roedd rhaglen sicrhau ansawdd ar waith ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear mewn perthynas â'r cyfarpar a ddefnyddir yn yr adran. Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer cynnal profion derbyn ar gyfarpar newydd, cynnal profion perfformiad rheolaidd a chynnal profion perfformiad ar ôl unrhyw waith cynnal a chadw ar y cyfarpar. Byddai Pwyllgor Diogelwch Rhag Ymbelydredd y Bwrdd Iechyd yn cael gwybod am unrhyw broblemau o ran sicrhau ansawdd cyfarpar.

Dylai'r cyflogwr adolygu a diweddarau'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd ym maes meddygaeth niwclear, dileu unrhyw ddyblygu rhwng y llawlyfr sicrhau ansawdd a'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd eraill ym maes meddygaeth niwclear a chyfuno'r rhain fel y bo'n briodol.

Yn ogystal, disgrifiwyd proses addas ar gyfer nodi, rhoi gwybod ac uwchgyfeirio diffygion ar gyfarpar i uwch-aelodau o staff fel y gellid cymryd camau priodol. Roedd hyn cynnwys symud cyfarpar o'r gwasanaeth. Roedd rhestrau o gyfarpar diweddar ar gael ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear ac fe'u darparwyd i'w harolygu.

Disgrifiodd y staff y gweithdrefnau sicrhau ansawdd a ddefnyddir, yn unol â chynghor yr arbenigwr ffiseg feddygol.

Diogel

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Yn ystod taith o amgylch yr adran, roedd yr amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mewn cyflwr da yr olwg, ac roedd yr ardal meddygaeth niwclear wedi cael ei hadnewyddu'n ddiweddar gyda chyfarpar newydd. Roedd yn cynnig amgylchedd golau, glân, clir a chrosawgar i'r cleifion. Ni wnaethom nodi unrhyw beryglon amlwg i iechyd a diogelwch y cleifion ac unigolion eraill sy'n ymweld â'r adran. Fodd bynnag, nodwyd bod y carped yn swyddfa derbynfa'r adran mewn cyflwr gwael a bod tyllau wedi'u gorchuddio â thâp i'w gwneud yn ddiogel. Gallai hyn achosi perygl baglu i'r staff sy'n gweithio yn yr adran.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu swyddfa'r dderbynfa a mynd i'r afael ag unrhyw beryglon iechyd a diogelwch fel bod y risgiau i'r staff sy'n gweithio yn yr adran yn cael eu lleihau i'r eithaf.

Roedd arwyddion clir yn hysbysu'r cleifion ac ymwelwyr na ddylid mynd i mewn i'r ardaloedd a reolir pan oedd ymbelydredd ìoneiddio yn cael ei ddefnyddio.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod trefniadau atal a rheoli heintiau a threfniadau dihalogi addas ar waith. Roedd pob ardal yr oedd modd i gleifion fynd iddi yn ymddangos yn lân ac yn daclus. Roedd y cyfarpar hefyd yn ymddangos yn lân a disgrifiodd y staff weithdrefnau glanhau a dihalogi addas.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael yn yr ystafelloedd archwilio a chadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod modd iddynt gael gafael ar gyfarpar diogelu personol addas yn hwylus. Gwelsom hefyd fod weips glanhau ar gael i ddihalogi cyfarpar a rennir a dangosodd y staff ddealltwriaeth dda o'u rôl yn hyn o beth.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur fod yr adran yn lân a bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn, yn eu barn nhw.

Roedd pob aelod o'r staff a ymatebodd i'r holiadur o'r farn bod gweithdrefnau atal a rheoli heintiau priodol ar waith, bod cyfarpar diogelu personol priodol yn cael ei gyflenwi a'i ddefnyddio a bod yr amgylchedd yn golygu bod modd rheoli heintiau yn effeithiol. Roedd pob aelod o'r staff, ond un, yn cytuno bod amserlen lanhau effeithiol ar waith.

Roedd tystiolaeth glir i ddangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o bolisiau a gweithdrefnau diogelu'r bwrdd iechyd a ble i gael gafael arnynt. Roeddent hefyd yn gallu disgrifio'r camau y byddent yn eu cymryd pe bai ganddynt bryder diogelu.

Gwnaethom wirio sampl o gofnodion ar gyfer pum aelod o'r staff a gwelsom fod y staff hwn wedi cwblhau'r lefel briodol o hyfforddiant diogelu.

Effeithiol

Rheoli cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion atgyfeirio ar gyfer pum claf. Roedd gan y sampl a welsom gynllun clir ac roeddent wedi cael eu cwblhau'n llawn ond nodwyd rhai anghysondebau.

Roeddent yn dangos tystiolaeth o weithdrefnau ysgrifenedig perthnasol y cyflogwr, fel gwiriadau adnabod cleifion a chadarnhad o feichiogrwydd, sy'n cael eu dilyn gan ddeiliaid dyletswydd. Roeddent hefyd yn dangos tystiolaeth o gysylltiadau a oedd wedi'u hawdurdodi ac, felly, eu cyfiawnhau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Rhannodd AGIC holiadur ar-lein er mwyn cael barn y staff ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan Ysbyty Treforys a'u profiad o weithio yno. Roedd yr holiadur yn ategu arolygiad AGIC a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2024. Cafwyd cyfanswm o 14 o ymatebion gan aelodau o'r staff.

Roedd yr ymatebion a gafwyd gan y staff yn gadarnhaol ar y cyfan, ond cafwyd rhai sylwadau negyddol ym mhob rhan o'r holiadur. Roedd pawb a atebodd yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn eu rhoi i'r cleifion. Fodd bynnag, roedd llai yn cytuno y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir gan eu hysbyty ar eu cyfer eu hunain neu ar gyfer ffrindiau neu deulu (9/14). Roedd ychydig dros hanner yn argymhell eu sefydliad fel lle i weithio (8/14).

Cawsom nifer o sylwadau ar y gwasanaeth a dangosir rhai ohonynt isod:

“Mae'r buddsoddiad a wnaed gan ein hymddiriedolaeth yn fy adran wedi ein galluogi i ddarparu gwasanaeth modern sy'n darparu triniaethau diogel ac effeithlon sydd o fudd i ddefnyddwyr y gwasanaeth a'r staff.”

“Staff sy'n cydweithio i helpu ei gilydd a gwneud eu gorau dros eu cleifion yw'r peth sy'n cadw'r gwasanaeth i fynd. Mae llawer ohonom yn gwneud mwy nag sy'n ofynnol i lenwi bylchau o ran niferoedd staffio a chymysgedd sgiliau ac ateb y galw cynyddol a thargedau, rydyn ni wedi blino'n lân. Rydyn ni am i'n cleifion gael profiad diogel a gofalgar yn fwy na dim, felly rydyn ni'n parhau i wneud hynny hyd eithaf ein gallu.”

“Mae angen staff profiadol arnon ni, mae'n teimlo bod staff yn cael hyfforddiant, maen nhw'n gadael ac rydyn ni nôl yn y dechrau unwaith eto. Nid oes digon o staff profiadol. Mae'n anodd cael amser i sganio cleifion a chwblhau gwaith gweinyddol, yn ogystal â threfnu apwyntiadau ac ati. Mae'n ystafell bleserus a chyffrous i weithio ynddi ond mae'n anodd weithiau am nad oes digon o gymorth gweinyddol.”

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y Prif Weithredwr oedd yn bennaf cyfrifol am weithredu'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) gyda thasgau, nid cyfrifoldeb, yn cael eu dirprwyo drwy'r strwythur rheoli. Roedd cyfrifoldebau allweddol y Prif Weithredwr a'r deiliaid dyletswydd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) wedi'u nodi yn y Polisi Diogelu Rhag Ymbelydredd Ïoneiddio, a oedd yn dangos llinellau adrodd ac atebolrwydd clir.

Roedd hi'n gadarnhaol nodi y defnyddir i-basbort, sef system gwmwl i helpu i reoli a sicrhau ansawdd polisiau a gweithdrefnau, ond nodwyd bod y system hon yn newydd i'r adran ac y bydd yn cymryd amser i ymsefydlu.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom ailadrodd mewn rhai dogfennau a gwybodaeth y cyfeiriwyd ati a oedd mewn sawl ffolder wahanol mewn manau gwahanol.

Byddai'n fuddiol i'r adran wneud gwelliannau effeithlonrwydd drwy adolygu a chyfuno dogfennau a gwybodaeth lle y bo'n briodol.

Cynllunio'r Gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Cawsom fanylion am niferoedd a chymysgedd sgiliau'r staff sy'n gweithio yn yr Adran Meddygaeth Niwclear neu ar ei rhan. Roedd y staff yn cynnwys Radiolegwyr Ymgynghorol, Radiograffwyr, Arbenigwyr Ffiseg Feddygol a Gwyddonwyr Clinigol.

Soniodd rhai aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw am heriau penodol mewn perthynas â'r tasgau gweinyddol yr oeddent wedi'u cwblhau wrth drefnu apwyntiadau cleifion. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff bod cynllun i ganoli systemau trefnu apwyntiadau'r adran o fewn y bwrdd iechyd. Dim ond nifer bach iawn o'r staff (3/12) a ymatebodd i arolwg AGIC oedd yn teimlo bod digon o staff er mwyn iddynt allu gwneud eu gwaith yn iawn. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r staff (11/13) wrthym eu bod yn gallu ymdopi â'r gofynion croes o ran eu hamser yn y gwaith.

“Dim digon o staff i redeg yr adran yn effeithiol. Mae angen staff gweinyddol i drefnu apwyntiadau cleifion fel sy'n digwydd yn Singleton ac mae angen staff gweinyddol neu gynorthwyyr i helpu i brosesu ffurflenni, fel sy'n digwydd yn Singleton...”

Rhaid i'r cyflogwr adolygu'r ddarpariaeth staffio a'r ffordd y caiff tasgau gweinyddol eu dyrannu er mwyn ceisio cynyddu effeithlonrwydd.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a atebodd yn teimlo eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i ymgymryd â'u rôl. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod lefel gydymffurfiaeth o 90% â gofynion hyfforddiant gorfodol. O safbwynt cofnodion hyfforddiant y staff ar gyfer gofynion Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017, roedd y cofnodion a welsom yn cynnwys hen ddogfennau a byddem yn argymhell y dylai'r rhain gael eu tynnu.

Pan ofynnwyd iddynt pa hyfforddiant arall fyddai'n ddefnyddiol, roedd sylwadau'r staff yn cynnwys:

“Sganiwr newydd i mewn, dim digon o amser penodedig na chysylltiad â sganiau gwahanol i gymeradwyo pethau'n derfynol.”

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd posterï a gwybodaeth wedi'u harddangos am sut y gall cleifion roi adborth ar eu profiadau. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am 'Gweithio i Wella' yn ogystal â bwrdd “Dywedoch Chi Gwnaethom Ni”.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Adran Meddygaeth Niwclear, Ysbyty Treforys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 11 - 12 Mehefin 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Adran Meddygaeth Niwclear, Ysbyty Treforys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 11 - 12 Mehefin 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Roedd y carped yn swyddfa'r dderbynfa wedi treulio ac wedi'i orchuddio â thâp a gallai achosi perygl baglu.	Dylai'r cyflogwr adolygu swyddfa'r dderbynfa a mynd i'r afael ag unrhyw beryglon iechyd a diogelwch fel bod y risgiau i'r staff sy'n gweithio yn yr adran yn cael eu lleihau i'r eithaf		Newid y carped sydd wedi'i ddifrodi.	Arweinydd Safle Radioleg Treforys / Adran Ystadau	Wedi'i gwblhau - Gosodwyd carped newydd ym mis Gorffennaf 24.
2. Wrth gomisiynu cyfarpar newydd yn ddiweddar, cafodd arbenigwyr ffiseg feddygol eu cynnwys yn hwyr yn y broses.	Dylai'r cyflogwr sicrhau bod arbenigwyr ffiseg feddygol ym maes meddygaeth niwclear yn ymgysylltu ac yn ymwneud yn weithredol â'r gwasanaeth er mwyn sicrhau gwelliannau a	Rheoliad 14 (1) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017	Datblygu Gweithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer caffael cyfarpar gan ddefnyddio canllawiau Coleg Brenhinol y Radiolegwyr a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)	Arweinydd Safle Radioleg Treforys, Prif Wyddonydd Clinigol - Meddygaeth Niwclear, Gwyddonydd	30 Ebrill 2025

		datblygiadau effeithiol. Dylai hyn gynnwys, ymhlith pethau eraill, y broses o gaffael yr holl gyfarpar meddygaeth niwclear, gan gynnwys y cyfarpar a ddefnyddir mewn llawdriniaethau		2017, er mwyn sicrhau bod pob rhanddeiliad, gan gynnwys arbenigwyr ffiseg feddygol, yn cael eu cynnwys ar ddechrau'r broses o gaffael cyfarpar. Rhannu'r Weithdrefn Weithredu Safonol yng nghyfarfod y Grŵp Cysylltiadau Meddygol.	Clinigol Ymgynghorol - Tomograffeg Gyfrifiadurol, Pennaeth Ffiseg Ymbelydredd	
3.	Gwelwyd rhywfaint o anghysondebau ac achosion o ddyblygu gwybodaeth yn rhai o weithdrefnau'r cyflogwr.	Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod pob darn o ddogfennaeth, gan gynnwys protocolau, gweithdrefnau a pholisïau ysgrifenedig, yn rhan o raglen Sicrhau Ansawdd ar gyfer dogfennaeth a'i bod yn cynnwys y manylion gofynnol fel y nodir yng ngweithdrefn y cyflogwr ar gyfer rheoli dogfennau.	Rheoliad 6 (1) (a) Atodlen 2 (1)(d) a 6 (5)(b) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017	Adolygu pob dogfen ar i-pasbort fel eu bod yn cynnwys y manylion gofynnol fel y nodir yng ngweithdrefn y cyflogwr ar reoli dogfennau.	Arweinydd Ansawdd Dros Dro	31 Rhagfyr 2024
	Nid oedd systemau adolygu a mynegeo cyson ar waith yn achos rhai o'r gweithdrefnau a	Dylai'r cyflogwr adolygu a diweddarau'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd ym maes meddygaeth niwclear,	Rheoliad 15 (1) (a) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad	Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd dyblyg wedi cael eu hadolygu a'u tynnu oddi ar i-pasbort a'u cyfuno yn y llawlyfr sicrhau	Arweinydd Ansawdd Dros Dro, Arweinydd Dull Meddygaeth	Wedi'i gwblhau - Tystiolaeth yn i-pasbort ym mis Awst 24

	welsom mewn perthynas â meddygaeth niwclear	dileu unrhyw ddyblygu rhwng y llawlyfr sicrhau ansawdd a'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd eraill ym maes meddygaeth niwclear a chyfuno'r rhain fel y bo'n briodol.	Meddygol) 2017	ansawdd.	Niwclear Radioleg Prif Wyddonydd Clinigol	
4.	Roedd y wybodaeth a ddarparwyd cyn yr arolygiad yn nodi bod y broses atgyfeirio yn defnyddio canllawiau atgyfeirio at ddelweddu'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer atgyfeiriadau meddygaeth niwclear. Nid oedd gweithdrefn berthnasol y cyflogwr (3) yn cyfeirio at y canllawiau hyn.	Rhaid i'r cyflogwr sicrhau, os caiff canllawiau atgyfeirio'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer meddygaeth niwclear eu dilyn, fod gweithdrefn y cyflogwr yn cyfeirio atynt a bod y canllawiau hyn ar gael i atgyfeirwyr.	Rheoliad 6 (5) (a) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017	Nodwyd ar gam fod canllawiau atgyfeirio'r Comisiwn Ewropeaidd yn cael eu defnyddio wrth gwblhau'r holiadur hunanasesu. Ar ôl adolygu pob rhanddeiliad, cafwyd cadarnhad mai dim ond i-share y mae'r gwasanaeth Meddygaeth Niwclear yn ei ddefnyddio.	Arweinydd Ansawdd Dros Dro, Arweinydd Safle Treforys, Prif Wyddonydd Clinigol	Wedi'i gwblhau - <i>Tystiolaeth yn EP-3</i>

5.	Gwelsom fod angen cofnodi rhagor o fanylion am y broses archwilio clinigol.	Rhaid i'r cyflogwr ar gyfer yr Adran Meddygaeth Niwclear ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddangos yn glir ganlyniad archwiliadau clinigol, y camau i'w cymryd, yr unigolyn sy'n gyfrifol am y camau gweithredu a'r dyddiad cwblhau ar gyfer pob archwiliad a gwblhawyd.	Rheoliad 7 o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017	Templed archwilio i'w ddiwygio i gynnwys: y camau i'w cymryd; y dyddiad cwblhau a'r unigolyn cyfrifol. Rhannu'r templed archwilio newydd â'r staff a'i nodi yng nghyfarfod y Grŵp Llywodraethu Radioleg.	Arweinydd Safle Treforys	31 Rhagfyr 2024
6.	Wrth edrych ar sampl o ffurflenni atgyfeirio a'r system Radis gyfatebol, nodwyd rhai anghysondebau. Nid oedd manylion a gwybodaeth yr atgyfeiriwr ar y ffurflen atgyfeirio bob amser yn ymddangos yn gywir ar RadIS. Gwelsom hefyd nad yw'r	Rhaid i'r cyflogwr: - Adolygu ac atgyfnerthu'r broses archwilio ffurflenni atgyfeirio yng ngweithdrefn y cyflogwr 3 - Gweithdrefn atgyfeirio a meini prawf atgyfeirio Adolygu'r broses ar gyfer cofnodi'r atgyfeiriwr ar y system electronig er	Rheoliad 6 (2) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017	Adolygu a diweddarau EP-3 i gynnwys y prosesau archwilio presennol ar gyfer cwblhau ffurflenni atgyfeirio a chofnodion Radis. Nodi'r fersiwn newydd yng nghyfarfod y Grŵp Llywodraethu Clinigol Radioleg. Trefnu cyfarfod â'r Arbenigwyr Ffiseg	Arweinydd Ansawdd Dros Dro, Arweinydd Safle Treforys - Rheolwr RadIS Pennaeth Ffiseg	30 Ebrill 2025 31 Hydref 2024

<p>awdurdodiad yn cael ei nodi yn y lle cywir bob amser.</p>	<p>mwyn sicrhau bod yr atgyfeiriwr cywir yn cael ei nodi.</p> <p>Adolygu'r broses ar gyfer cwblhau'r wybodaeth arall ar ffurflenni atgyfeirio, fel awdurdodi, mewn ffordd gyson</p>		<p>Feddygol, y Cyfarwyddwr Clinigol, y Rheolwr Gwasanaethau Radioleg, Rheolwyr RIS a PACS, er mwyn trafod yr opsiynau i gofnodi'r atgyfeiriwr yn gywir yn RadIS.</p> <p>Datblygu achos busnes dros gael cyllid i dalu am gymorth gweinyddol i fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth o ran atgyfeirwyr.</p> <p>Cyfarwyddwr Clinigol i bwysleisio'r angen i gydymffurfio â blychau</p>	<p>Ymbelydredd, Arweinwyr Safle Radioleg, Arweinydd Ansawdd Dros Dro, Rheolwr Gwasanaethau Radioleg, Cyfarwyddwr Clinigol dros Radioleg - Rheolwr RadIS</p> <p>Arweinydd Safle Treforys, Rheolwr Gwasanaethau Radioleg, Rheolwr Cynorthwyol Dros Dro'r Gyfarwyddiaeth Radioleg</p> <p>Cyfarwyddwr Clinigol dros Radioleg, Arweinydd</p>	<p>31 Mai 2025</p> <p>31 Hydref 2024</p>
--	---	--	--	---	--

				<p>llofnod awdurdodi yng nghyfarfod y Grŵp Addysg Radioleg.</p> <p>Archwiliadau'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ar gyfer pob dull i edrych ar gydymffurfiaeth â blychau llofnod awdurdodi. Nodi'r dogfennau newydd yng nghyfarfod y Grŵp Llywodraethu Clinigol.</p>	<p>Clinigol dros Radioleg,</p> <p>Arweinwyr Safle a Radiograffwyr Arweiniol y Dulliau</p>	<p>30 Tachwedd 2024</p>
7.	<p>Gwelsom rai anghysondebau o ran holi am feichiogrwydd yn y ffurflenni a ddefnyddiwyd, y polisi a gweithdrefn berthnasol y cyflogwr.</p>	<p>Rhaid i'r cyflogwr adolygu prosesau a hyfforddiant staff mewn perthynas â holi am feichiogrwydd er mwyn sicrhau bod y broses gyfredol, gweithdrefn y cyflogwr a phob ffurflen yn gyson ac yn nodi'n glir y weithdrefn a ddefnyddir.</p>	<p>Rheoliad 11 (1)(f) a Rheoliad 6 (1) (a) Atodlen 2 (1)(c) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017</p>	<p>Caiff y polisi, y ffurflenni a gweithdrefn y cyflogwr 6 eu hadolygu a'u diweddarau i gynnwys y broses ar gyfer pob unigolyn sy'n ansicr am ei statws beichiogrwydd. Nodi'r dogfennau newydd yng nghyfarfod y Grŵp Llywodraethu Clinigol.</p>	<p>Arweinydd Ansawdd Dros Dro, Radiograffwyr Arweiniol y Safle, Rheolwr Gwasanaethau Radioleg, Cyfarwyddwr Clinigol dros Radioleg ac Arbenigwyr Ffiseg Feddygol</p>	<p>30 Ebrill 2025</p>

8.	Roedd y wybodaeth i gleifion a welsom yn aneglur ynghylch risgiau a dosau cyfatebol o gysylltiad ymbelydredd	Rhaid i'r cyflogwr adolygu a diweddarau'r wybodaeth a roddir i gleifion am fanteision a risg ymbelydredd.	Rheoliad 12 (6) a 12 (7) o Reoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017	Mae'r llythyr gwybodaeth i gleifion wedi cael ei ddiweddarau i nodi manteision/risg ymbelydredd yn glir. Caiff hwn ei adolygu'n rheolaidd a'i ddiweddarau yn ôl yr angen.	Arweinydd Ansawdd Dros Dro, Arweinydd Dull Meddygaeth Niwclear, Prif Wyddonydd Clinigol, Gwyddonydd Clinigol Ymgynghorol	Wedi'i gwblhau - <i>Tystiolaeth yn RadS a llythyrau i gleifion o fis Awst 24</i>
9.	Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y staff yn awgrymu nad oeddent bob amser yn hyderus y byddai pryderon ynghylch arferion clinigol anniogel yn cael eu trin	Dylai'r cyflogwr adolygu'r adborth a ddarparwyd gan y staff mewn perthynas â rhoi gwybod am ddigwyddiadau a mynd i'r afael â phryderon		Atgoffa staff bod yn rhaid cofnodi/rhoi gwybod am gamgymeriadau a fu bron â digwydd, digwyddiadau a risgiau drwy Datix, lle caiff ymchwiliad ei gynnal iddynt a lle cânt eu huwchgyfeirio fel y bo'n briodol drwy brosesau llywodraethu'r Uned Radioleg a'r Bwrdd Iechyd. Atgoffa staff o'r polisiau a'r gwasanaethau sydd ar gael gan y Bwrdd Iechyd	Arweinydd Ansawdd Dros Dro, Radiograffwyr Arweiniol y Safle, Arweinydd Clinigol dros Radioleg,	31 Awst 2024 31 Awst 2024

			<p>er mwyn codi pryderon unigol e.e. ‘Gweithdrefn Codi Pryderon’, y gwasanaeth Gwarcheidwad.</p> <p>Caiff Adroddiad Llywodraethu Clinigol ei lanlwytho i i-passport a'i anfon at bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn gweld yr holl weithgareddau sy'n ymwneud â llywodraethu clinigol ac ansawdd, a'u bod yn ymwybodol ohonynt.</p> <p>Mae cofnodion pob cyfarfod Llywodraethu Clinigol ar gael ar hyn o bryd ar SharePoint Radioleg er mwyn gweld sut y caiff camgymeriadau a fu bron â digwydd, risgiau a digwyddiadau cyfredol eu rheoli.</p>	<p>Arweinydd Ansawdd Dros Dro, Radiograffwyr Arweiniol y Safle Arweinydd Clinigol dros Radioleg</p> <p>Arweinydd Ansawdd Dros Dro</p> <p>Arweinydd Ansawdd Dros Dro</p>	<p>30 Medi 2024</p> <p>Wedi'i gwblhau - <i>Tystiolaeth ar y wefan Sharepoint Radioleg</i></p>
--	--	--	--	---	---

				Datblygu cynllun strategol ar y cyd â Gwasanaeth Meddygaeth Niwclear Singleton er mwyn mabwysiadu dull llywodraethu clinigol ar y cyd i sicrhau bod unrhyw bryderon posibl yn weladwy.	Arweinydd Safle Treforys, Rheolwr Gwasanaethau Radioleg, Pennaeth Meddygaeth Niwclear Singleton	31 Ionawr 2025
10.	Gwelsom ailadrodd a rhai anghysondebau mewn rhai dogfennau. Roedd ffolderi a oedd yn cynnwys gwybodaeth yn cael eu cadw mewn manau gwahanol hefyd	Byddai'n fuddiol i'r adran wneud gwelliannau effeithlonrwydd drwy adolygu a chyfuno dogfennau a gwybodaeth lle y bo'n briodol.	Rheoliad 6 (1) a 6 (2) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017	Adolygu'r holl ddogfennau; eu cyfuno a'u hychwanegu at system ddogfennau i-passport. Caiff un copi caled ei gadw yn swyddfa Radiograffydd Arweiniol y Dull at ddibenion parhad busnes.	Arweinydd Ansawdd Dros Dro, Arweinydd Safle Treforys, Arweinydd Dull Meddygaeth Niwclear	30 Ebrill 2025
11.	Dywedodd aelodau o'r staff wrthym eu bod yn treulio llawer o'u hamser clinigol yn cyflawni tasgau gweinyddol fel	Rhaid i'r cyflogwr adolygu'r ddarpariaeth staffio a'r ffordd y caiff tasgau gweinyddol eu dyrannu er mwyn ceisio		Datblygu achos busnes ar y cyd â gwasanaeth Meddygaeth Niwclear Singleton er mwyn ariannu'r staff gweinyddol sydd eu hangen ar gyfer	Pennaeth Meddygaeth Niwclear Singleton, Arweinydd Safle Treforys,	31 Awst 2025

	prosesu ffurflenni ac apwyntiadau.	cynyddu effeithlonrwydd.		system trefnu apwyntiadau ganolog.	Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	
12.	Nodwyd rhywfaint o afreoleidd-dra â'r broses asesu cymhwysedd lle roedd dau aelod o'r staff wedi cymeradwyo ei gilydd, sy'n amhriodol.	Mae angen i'r cyflogwr sicrhau bod cofnodion hyfforddiant y staff yn cael eu diweddarau er mwyn sicrhau bod cymwyseddau'r staff wedi cael eu hasesu gan unigolyn priodol y mae'r cyflogwr wedi dirprwyo'r dasg honno iddo.	Rheoliad 17 (1) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017	Mae cofnodion hyfforddiant wedi cael eu diweddarau yn dilyn yr adborth a gafwyd yn ystod yr arolygiad.	Arweinydd Safle Treforys	Wedi'i gwblhau - <i>Tystiolaeth yn y cofnod hyfforddiant</i>
13.	Arfer gorau fyddai arddangos un lefel gyfeirio ddiagnostig ar gyfer pob triniaeth yn hytrach na'r lefel leol a chenedlaethol er mwyn lleihau'r risg o gamgymeriad posibl. Nid oedd defnydd pob set o lefelau cyfeirio diagnostig	Dylai gweithdrefn y cyflogwr gael ei diweddarau i egluro diben y ddwy set o lefelau cyfeirio diagnostig sy'n cael eu harddangos a sut y dylid eu defnyddio.	Rheoliad 6 (1) (a) Atodlen 2 (1)(f) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017	Mae'r gwasanaeth bellach wedi mabwysiadu lefelau cyfeirio diagnostig unigol i'w defnyddio ar gyfer delweddu CT (dim ond lefelau cyfeirio diagnostig lleol a gaiff eu harddangos nawr).	Arweinydd Dull Meddygaeth Niwclear, Arweinydd Safle Treforys, Gwyddonydd Clinigol Ymgynghorol Arweinydd Ansawdd Dros Dro;	Wedi'i gwblhau 31 Ionawr 2025

<p>yn glir yng ngweithdrefn y cyflogwr.</p>			<p>Caiff gweithdrefn y cyflogwr (EP 10) ei hadolygu a'i diweddarau fel y bo'n berthnasol.</p>	<p>Arbenigwyr Ffiseg Feddygol; Arweinwyr Safle; Cyfarwyddwr Clinigol; Rheolwr Gwasanaethau Radioleg</p>
---	--	--	---	---

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Sue Moore

Swydd: Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaeth (Ysbyty Treforys)

Dyddiad: 19 Awst 2024